**COFNODION LGH-16-02 (mins)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 13 TACHWEDD 2002**

**Amser: 09.30 - 12.50**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD**

**CENEDLAETHOL**

**Yn bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law (Cadeirydd Dros Dro) | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Jane Hutt ar gyfer Eitem 2 | Bro Morgannwg |
| Dafydd Wigley ar gyfer Eitem 5 | Caernarfon |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr yr Adran Llywodraeth Leol, Cymunedau, Tai a Diwylliant |
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Peter Jones | Y Gangen Amddifadedd Cymdeithasol |
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Keith Ingham | Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| Maria Michael | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Richard Grant | Cyfarwyddwr y Rhaglen Cynhesrwydd Fforddiadwy (TRANSCO) |
| Jeremy Nesbitt | Rheolwr Rhanbarthol Rhaglen Cynhesrwydd Fforddiadwy Cymru |
| Helen Wooldridge | Y Rhaglen Cynhesrwydd Fforddiadwy |
| Brian Thursk | Sylfaen |
| Grwp Ieuenctid Cofis Cwl | |
| Sandy Blair | Cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Steve Thomas | Pennaeth Materion Corfforaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Robert Rees | Pennaeth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**9.30am hyd 9.35am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor bod Gwenda Thomas, y Cadeirydd, yn sâl ac yn ymddiheuro. O dan reol sefydlog 8.17, gwahoddodd y Pwyllgor i enwebu Cadeirydd dros dro. Cytunwyd y dylai Peter Law gymryd rôl Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gan ddymuno gwellhad buan i Gwenda Thomas.

1.3 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Peter Black, Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, ac mae ei wraig yn gweithio i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
- Pauline Jarman, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ar gyfer eitem 3)

**9.35am hyd 10.10am**

**Eitem 2: Adroddiad Ysgrifenedig y Gweinidog**

**LGH-16-02(p.1) Atodiad 1-6**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddaeth i'r Pwyllgor er mwyn ateb cwestiynau ar Blant sy'n Derbyn Gofal, eitem a gynhwyswyd ym mhapur y Gweinidog.

2.2 Croesawodd y Gweinidog ddiddordeb y Pwyllgor yn Adroddiad Waterhouse gan roi adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar Argymhellion 8,9,58 a 59.

2.3 Tynnodd y Gweinidog sylw at y canlynol:

- Mae **Argymhellion 8 a 9** yn delio â gweithdrefnau chwythu'r chwiban a disgyblu. Cyfeiriodd at y Codau Ymarfer ar gyfer gweithwyr cyflogedig a chyflogwyr gofal cymdeithasol, a gyhoeddwyd gan Gyngor Gofal Cymru. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ddyletswydd ar weithwyr cyflogedig i roi gwybod os ydynt yn amau bod plant yn cael eu cam-drin ac ar gyflogwyr i weithredu ar wybodaeth o'r fath. Byddai copïau o'r codau ar gael er gwybodaeth i'r Aelodau. Ychwanegodd fod y Comisiynydd Plant wrthi'n adolygu'r trefniadau cwyno, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth ym maes gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae **Argymhelliad 58** yn delio â chyngor a chyfarwyddyd ar gyfer aelodau a etholir sydd â rolau a chyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol o fewn awdurdodau lleol. Soniodd y Gweinidog am y cyfarwyddyd, y seminarau a'r hyfforddiant a fu ar gael i aelodau etholedig, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a SYNIAD, ac am ei chyfarfodydd rheolaidd gyda'r aelodau etholedig sydd â chyfrifoldebau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Pwysleisiodd rôl aelodau etholedig sydd â chyfrifoldeb penodol mewn meysydd eraill yn y gwaith o gyfrannu at rôl gorfforaethol yr awdurdod, rôl Pwyllgorau Craffu a phwysigrwydd dangosyddion perfformiad i'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys nifer sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.
- Mae **Argymhelliad 59** yn cyfeirio at rôl Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod Cyfarwyddwyr yn rhoi arweiniad clir a bod ganddynt fframwaith rheoli perfformiad cryf er mwyn mynd i'r afael ag amcanion trawsbynciol. Mae yna fonitro rheolaidd ac mae'n rhaid cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu arnynt.

2.4 Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Mae'n rhaid sicrhau cyfres o gamau clir, wedi'u harchwilio, i Gyfarwyddwyr eu cymryd pan fyddant yn cael gwybod bod plant yn cael eu cam-drin neu fod yna amheuaeth o hynny dan argymhelliad 8. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut roedd y polisïau wedi cael eu profi er mwyn gweld pa mor gadarn ydynt.
- Dywedodd Aelodau eto bod angen trywydd archwilio er mwyn arolygu cartrefi gofal ac y dylai'r canllawiau nodi'n glir pam mae'r aelodau yn ymweld.
- Roedd yn amlwg bod y ffordd mae awdurdodau lleol wedi rhoi argymhelliad 8 ar waith yn amrywio a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd wedi dechrau adolygu hyn.
- Pwysleisiwyd bod pob aelod etholedig o awdurdod lleol yn rhieni corfforaethol, yn hytrach na phobl ar bwyllgor perthnasol yn unig, a'i bod yn hanfodol bod pob aelod yn cael ei hyfforddi a'i gyfarwyddo yn yr hyn sydd ynghlwm wrth fod yn rhiant corfforaethol. Roedd hefyd yn bwysig ystyried pob maes sy'n berthnasol i ofal plentyn, yn enwedig addysg, wrth lunio cynllun gofal plentyn.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro'r gwahaniaeth rhwng cyfrifoldeb corfforaethol a rolau rhieni corfforaethol.
- Nododd Aelodau y diwrnodau hyfforddi arfaethedig yn y Flwyddyn Newydd gan ofyn pa ganran o gynghorwyr sydd wedi cael eu hyfforddi yn y maes hwn.

2.5 Dyma oedd ymateb y Gweinidog:

- Mae'r cod cyfarwyddyd sydd newydd ei gyhoeddi yn mynd i'r afael â'r camau i'w cymryd os cofnodir achos dan argymhelliad 8.
- Dywedodd fod ymweliadau aelodau â chartrefi gofal awdurdodau lleol yn rhan hanfodol o'r system, ond bod yn rhaid ei gwneud yn glir nad archwilio'r lle yn ffurfiol yw pwrpas eu hymweliad ond nodi unrhyw bryderon ar ran yr awdurdod. Cyfrifoldeb Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yw archwilio'n ffurfiol.
- Mae gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb clir am sicrhau bod pob aelod yn cael y cyfarwyddyd a'r cymorth sy'n ofynnol a bod pob disgyblaeth sy'n rhan o ofal plentyn yn cael eu dwyn ynghyd.
- Mater i gabinetau awdurdodau lleol yw cyfrifoldeb corfforaethol. Mae bod yn rhieni corfforaethol yn rôl wahanol o fewn y cabinet ac mae i'w harfer yn fwy cyffredinol gan yr awdurdod ym mhob un o'i wasanaethau sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn ysgrifennu at y Cadeirydd ar nifer y cynghorwyr sydd wedi cael eu hyfforddi.

2.6 Diolchodd y Cadeirydd i Jane Hutt am ddod i'r Pwyllgor.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud ymholiadau ac ysgrifennu at y Cadeirydd ar nifer y cynghorwyr sydd wedi cael eu hyfforddi.
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i anfon copïau o'r Cod Ymarfer at yr Aelodau.

2.7 Gwahoddodd y Cadeirydd Edwina Hart i gyflwyno ei hadroddiad ysgrifenedig.

2.8 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad ac, yn ychwanegol, nododd:

- Ei bod yn bles gyda chyfran uchel y tenantiaid a oedd wedi cymryd rhan yn y bleidlais ynghylch trosglwyddo stoc tai, a drefnwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y mwyafrif o blaid trosglwyddo. Dywedodd y byddai'n gofyn am adroddiad gan yr awdurdod lleol ynglyn â sut roedd wedi rheoli'r ymgyrch ac y byddai'n anfon copi i'r Pwyllgor.
- Dywedodd ei bod wedi clywed gan Syr Harry Jones yng Nghymdeithas Llywodraeth

Leol Cymru ynghylch hyrwyddo cofrestrau treiglol, sef egwyddor yr oedd y gymdeithas yn ei chefnogi, ar y cyfan.

- Roedd pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi ymateb erbyn hyn ar oblygiadau argymhellion 8, 9, 58 a 59 Waterhouse a byddai'n darparu'r tabl diweddaraf ar gyfer yr Aelodau.

2.9 Dyma oedd ymateb yr Aelodau:

- Roedd yn bwysig cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o redeg a rheoli cymdeithasau tai.
- Roedd y cynnydd mawr yn y cwynion ynghylch cymdogion a oedd yn tarfu ac yn y ceisiadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi'i nodi.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro pryd y byddai'r grant amddifadedd ar gael.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a fydd ei hadroddiad ar y Comisiwn dros Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yn cynnwys ffordd ymlaen.
- I ddod yn ôl at argymhellion Waterhouse, teimlwyd y dylai pob awdurdod lleol fod yn yr un sefyllfa o ran y camau a weithredir ac y dylai hyfforddiant fod yn fater sy'n parhau i fod ar yr agenda o fewn pob awdurdod.

2.10 Dyma oedd ymateb y Gweinidog:

- Cadarnhaodd y byddai'r grant amddifadedd ar gael o'r flwyddyn ariannol 2003-2004.
- Ar ôl gwerthuso ymateb pawb i'r ymarfer ymgynghori ar y Comisiwn dros Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol, byddai mewn sefyllfa i ystyried y ffordd ymlaen.
- Dywedodd eto fod Jane Hutt wedi cytuno i adrodd yn ôl ar ganran y cynghorwyr a oedd wedi cael eu hyfforddi ond y byddai'n ysgrifennu at Syr Harri Jones gan ddweud bod y Pwyllgor yn teimlo'n gryf iawn y dylai pob cynghorwr gael hyfforddiant digonol ar y mater hwn.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i adrodd yn ôl ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil canlyniadau pleidlais trosglwyddo stoc Pen-y-bont ar Ogwr.
- Y Gweinidog i roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar ymateb awdurdodau lleol yn dilyn ei hymgynghoriad ar "blant sy'n derbyn gofal".
- Y Gweinidog i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar bwysigrwydd annog cynghorwyr i fynd ar gyrsiau hyfforddi.

**<u>10.10am hyd 10.40am</u>**

**Eitem 3: Cyflwyniad gan TRANSCO ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd**

3.1 Dywedodd y Cadeirydd eu bod wedi cytuno i gael cyflwyniad gan TRANSCO cyn y Papur ar Dlodi Tanwydd.

3.2 Croesawodd y Cadeirydd Richard Grant, Cyfarwyddwr y Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy, Jeremy Nesbitt, Rheolwr Rhanbarthol Rhaglen Cynhesrwydd Fforddiadwy Cymru a Helen Wooldridge o'r Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy gan eu gwahodd i roi eu cyflwyniadau.

3.3 Cafodd yr Aelodau gopi o'r cyflwyniad, ac mae copi ynghlwm yn Atodiad 1. Dyma'r prif bwyntiau yr oedd TRANSCO am i'r Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt:

- Nwy i ardaloedd heb nwy.
- Y ffordd ymlaen o ran integreiddio'r plethora o raglenni sy'n bodoli er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Nid oedd ffigurau Cymru wedi'u dadansoddi'n llawn eto ond byddai'r canlyniadau yn cael eu hanfon at yr Aelodau pan fyddent ar gael.

3.4 Diolchodd y Cadeirydd i TRANSCO am eu cyflwyniad cynhwysfawr gan ganmol eu gwaith pwysig a oedd yn gwneud cymaint o wahaniaeth i broblem tlodi tanwydd. Gwahoddodd yr Aelodau i wneud sylwadau.

3.5 Gwnaeth Aelodau'r sylwadau canlynol:

- Croesawyd y cysyniad o gynnal arolwg ar bob cartref mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn darganfod y gofynion tanwydd.
- Nodwyd nad yw tlodi tanwydd yn nodweddu'r mwyafrif o dai efallai, a bod yn rhaid ystyried nid yn unig sicrhau bod cartrefi'n gynnes, ond eu hinswleiddio'n effeithiol gan sicrhau manteision amgylcheddol.
- Nodwyd nad yw'r grantiau sydd ar gael yn diwallu pob angen sy'n gysylltiedig â thlodi tanwydd a gofynnodd Aelodau sut y gellid ehangu'r rhaglenni a pha wersi y gallai Cymru eu dysgu yn sgil targedu'r Cynllun Effeithonrwydd Ynni Cartref.
- Roedd Aelodau'n edrych ymlaen at dderbyn canlyniadau dadansoddiadau Cymru a gofynnwyd a fyddent yn gysylltiedig ag ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

3.6 Dyma oedd ymateb Richard Grant:

- Roedd Nwy Prydain wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddefnyddio arian y rhaglen ar y cynlluniau peilot, sef yr hyn a fyddai'n talu orau.
- Roedd cynllun peilot Stockton wedi cyflogi cyflenwyr a chontractwyr lleol i osod yr offer ac roedd hefyd wedi annog pobl leol i gael eu hyfforddi yn y maes gwaith hwn. Ar wahân

i leddfu tlodi tanwydd, roedd hyn hefyd yn cyfrannu at yr economi leol.
- Nodwyd yr awgrym ynghylch cysylltu dadansoddiadau ffigurau Cymru ag ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a byddai'n cael ei ystyried.

3.7 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn cael ei adolygu'n llawn y flwyddyn nesaf ac y byddai'n edrych yn benodol ar faterion cymhwysedd a phrofion moddion. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio gallu rhoi adroddiad ar yr adolygiad yn ystod y tymor nesaf ac y byddai'n ystyried y pwyntiau a godwyd yn y Pwyllgor heddiw.

_

**10.40am hyd 10.50am**

**Eitem 4: Ymgynghori ar Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru**

**LGH-16-02(p.2)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a oedd yn tynnu sylw at yr angen i hyrwyddo Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref fel rhan annatod o Strategaeth Dai'r Cynulliad. Dywedodd y byddai'n paratoi adroddiad ar gynllun 2001-02 er mwyn gweld beth y gellir ei ddysgu. Lansiodd llywodraeth y DU strategaeth tlodi tanwydd y llynedd a rhoddodd y Cynulliad gryn fewnbwn ar berspectif Cymru. Ychwanegodd fod diddymu polisi tanwydd yng Nghymru yn strategaeth yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei chyflawni, ac roedd y fframwaith i wneud hyn eisoes yn ei le. Ychwanegodd fod strategaeth unigryw i Gymru wedi cael ei datblygu a oedd yn sail i'r ymgynghoriad. Gofynnodd i'r Aelodau gyfrannu at yr ymarfer ymgynghori sy'n cau ar 21 Ionawr 2003.

4.2 Gwnaeth yr Aelodau y sylwadau a ganlyn:

- Byddai'n fuddiol pe bai modd cynnwys pobl mewn cynlluniau arbed ynni/tlodi tanwydd sy'n cael eu heithrio ar hyn o bryd am mai rhai sy'n derbyn budd-daliadau, yn unig, sy'n gymwys.
- Dylid ystyried ffyrdd gwahanol o wresogi mewn cynlluniau adeiladu newydd yn y dyfodol gan gynnwys ynni'r haul.
- Awgrymwyd y dylid ystyried ffurfiau eraill ar danwydd yn hytrach na nwy (sef y brif ffynhonnell ynni). Tynnwyd sylw at y cynllun a gâi ei weithredu yng Nglofa'r Twr lle y gall pobl sydd ar incwm isel brynu glo lawer yn rhatach, ac awgrymwyd y dylid gwahodd darparwyr nad ydynt yn ddarparwyr nwy i roi tystiolaeth ar yr ymgynghoriad.

4.3 Dyma oedd ymateb y Gweinidog:

- Byddai adolygu'r cynllun yn dangos pa gamau i'w cymryd.
- Nid oedd yn hapus gyda'r effaith y byddai profion moddion yn ei chael a byddai'n edrych ar ffyrdd eraill o dargedu tlodion tanwydd.
- Roedd wrth ei bodd gyda'r syniad o gael tystiolaeth gan ddarparwyr ynni eraill.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar lefel gweithgarwch 2001-02 o ran Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (dylai hyn gynnwys materion cysylltiedig fel dulliau posib gwahanol i brofion moddion er mwyn gwarchod pobl rhag cael eu rhwystro rhag elwa ar y cynllun tlodi tanwydd oherwydd y system fudd-daliadau).
- Y Clerc i wahodd darparwyr ynni nad ydynt yn ddarparwyr nwy i roi tystiolaeth ar leddfu tlodi tanwydd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

**<u>10.50am hyd 10.55am</u>**

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Hydref a 7 Tachwedd**

**LGH-14-02(min) a LGH-15-02(min)**

8.1 Cymerodd y Cadeirydd yr eitem hon cyn yr egwyl.

8.2 Cadarnhawyd cofnodion 30 Hydref LGH-14-02 (min) cyn belled â bod llinell gyntaf pedwerydd pwynt bwled paragraff 6.3 yn dweud *ymweld â datblygiad adeiladu* yn lle ymweld ag adeilad.

8.3 Cadarnhawyd cofnodion 7 Tachwedd LGH-15-02 (min).

8.4 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu gwahodd i fynd i'r Pwyllgor hwnnw ar 28 Tachwedd pan gâi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ei gyflwyno. Gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i'r Clerc a oedd modd iddynt fynd.

8.5 Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr ymweliad llwyddiannus â Gogledd Cymru ar 7 Tachwedd a'r dystiolaeth wych a ddaeth i law fel rhan o'r adolygiad polisi ar feithrin gallu. Awgrymwyd ynghynt y dylai'r Pwyllgor ystyried ymweld ag Iwerddon er mwyn casglu ffeithiau. Roedd yr Aelodau'n hapus gyda'r awgrym hwn.

**Pwynt Gweithredu**

- Yr Aelodau i roi gwybod i'r Clerc a fydd modd iddynt fynd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Tachwedd.
- Y Clerc i baratoi rhaglen ar gyfer ymweld ag Iwerddon i gasglu ffeithiau fel rhan o'r adolygiad polisi.

**<u>10.55am hyd 11.10am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**<u>11.10am hyd 11.30am</u>**

**Eitem 5: Cyflwyniad ar Rymuso Plant gan Grwp y Cofis Cwl**

5.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cytuno i gymryd yr eitem hon nesaf. Dywedodd fod Grwp y Cofis Cwl wedi'i sefydlu fel rhan o'r bartneriaeth rhwng Tai Eryri a Sylfaen, Prosiect Datblygu Cymunedol a esgorodd ar waith Cymdeithas y Plant. Roedd yr Aelodau wedi cael cyflwyniad gan Dai Eryri yn ystod eu hymweliad â Gogledd Cymru ac roeddent ar ddeall bod rhai o bobl ifanc Cofis Cwl yn ymweld â'r Cynulliad heddiw. Roeddent wedi'u gwahodd i'r Pwyllgor. Croesawodd Brian Thursk o Sylfaen a'r bobl ifanc o grwp y Cofis Cwl i'r Pwyllgor. Croesawodd Dafydd Wigley hefyd.

2. Diolchodd Dafydd Wigley i'r Cadeirydd am ei wahodd i'r Pwyllgor ar gyfer yr eitem hon. Dywedodd ei fod wrth ei fodd yn gweld y grwp yma heddiw a diolchodd iddynt am eu holl waith caled a fyddai'n help wrth ystyried polisïau ar gyfer y dyfodol.

5.3 Rhoddodd y bobl ifanc gyflwyniad ar rymuso plant. Disgrifiwyd sut roedd y grwp wedi cael ei sefydlu a'r hyn yr oeddent wedi'i gyflawni hyd yma drwy uno pobl ifanc o'r ystadau tai yn ardaloedd Cadnat a Pheblig Caernarfon. Disgrifiwyd sut roeddent wedi cynnal cynhadledd yn gynharach yn y flwyddyn ac wedi gwahodd pobl bwysig i wrando ar eu safbwyntiau er mwyn gwella'r ardaloedd lle roeddent yn byw. Roeddent wedi cynnal gweithdy wedyn a oedd yn edrych ar ffactorau fel camddefnyddio cyffuriau, troseddu, hamdden a sut roedd y rhain yn effeithio ar eu hamgylchedd. Roeddent hefyd wedi mynd i Ballybough yn Nulyn ar daith gyfnewid ac wedi cyfarfod â phobl ifanc o ardal Trelai, Caerdydd y diwrnod cynt er mwyn trafod problemau a rhannu syniadau.

5.4 Disgrifiwyd un prosiect lle mae llwybr yn cysylltu'r ddwy ystâd. Nid oedd y llwybr yn un braf ac roedd pobl caeth i gyffuriau yn loetran ar hyd-ddo. Yn ystod yr haf, roeddent wedi clirio'r holl sbwriel ac yn trefnu nawr i artist lleol helpu i beintio murlun ar y waliau. Roeddent wedi gofyn i fusnesau lleol am ddeunyddiau i helpu gyda hyn. O ganlyniad, bydd y llwybr yn lle brafiach, mwy diogel.

5.5 Mae'r cyfryngau wedi tynnu sylw at yr hyn y mae'r grwp wedi'i gyflawni hyd yma ac mae'r grwp wrthi ar hyn o bryd yn golygu fideo am eu hystâd a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

5.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r grwp am eu cyflwyniad gan ddweud mor hyfryd oedd gweld brwdfrydedd o'r fath dros eu cymuned.

5.7 Llongyfarchodd yr Aelodau y grwp ar eu cyflwyniad a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt hyd yma a dywedwyd wrthynt mai nhw oedd y bobl bwysig gan mai nhw yw'r dyfodol. Dywedodd yr Aelodau fod y Cynulliad Cenedlaethol yn unfryd o blaid cynnwys pobl ifanc a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

5.8 Cyfeiriodd y Gweinidog hwy yn ôl at bwynt a wnaed ynglyn ag anawsterau wrth benderfynu pwy sy'n berchen ar ddarn o dir. Dywedodd os byddent yn ysgrifennu ati, y byddai'n ceisio datrys y broblem. Cyfeiriodd hwy hefyd at ei hadroddiad cynharach ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol gan ofyn iddynt a oeddent o'r farn y dylid gostwng oedran pleidleisio i 16. Dangoswyd eu bod yn cytuno y dylid gostwng yr oedran drwy roi eu dwylo i fyny.

5.9 Diolchodd y Cadeirydd iddynt am ddod i'r Pwyllgor. Cyflwynwyd murlun o'u profiad yn Nulyn i'r Cadeirydd. Diolchodd iddynt ar ran y Pwyllgor.

**<u>11.30am hyd 11.50am</u>**

**Eitem 6; Polisi Camddefnyddio Sylweddau**

**LGH-16-02(p.3)**

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gyflwyno'r papur.

6.2 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi gofyn i Adam Peat, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Cymunedau, Tai a Diwylliant i ddod i'r Pwyllgor, gan mai ef yw cadeirydd y gweithgor ar Weithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau. Ychwanegodd ei bod, fel mae'r Pwyllgor yn ei wybod, yn cwrdd yn rheolaidd â Phrif Gwnstabl Cymru a'u bod yn trafod camddefnyddio sylweddau ymhlith pethau eraill. Dywedodd eu bod wedi croesawu ei hymrwymiad i sefydlu pum Tîm Cyffuriau ac Alcohol cymunedol arall ledled Cymru. Dywedodd ei bod yn falch o weld grwpiau gwirfoddol yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau yn y maes hwn a soniodd am waith Byddin yr Iachawdwriaeth gyda charcharorion yn Abertawe. Dywedodd ei bod yn pryderu'n fawr am ddyfodol plant pobl sy'n gaeth i gyffuriau a bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Gwahoddodd sylwadau gan Aelodau.

6.3 Cododd Aelodau y materion a ganlyn:

- Teimlwyd bod angen datblygu cysylltiad â'r gwasanaeth iechyd wrth edrych i weld faint o welyau sydd ar gael a beth yw'r galw am welyau ar gyfer triniaeth dadwenwyno ac adfer preswyl.
- Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai unrhyw arian sydd wedi'i neilltuo i fynd i'r afael â'r broblem hon yn cael ei rhoi i brosiectau eraill.
- Nodwyd gwaith prosiect DAWN ym Mae Colwyn a chanmolwyd ei ddull cydlynol.
- Dywedwyd wrth Aelodau bod prosiect tebyg i'r un yng Ngharchar Abertawe ar waith yng Ngharchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, lle roedd unedau heb gyffuriau gwirfoddol.
- Roedd Aelodau yn meddwl y gallai arloesedd er mwyn galluogi meddygon teulu i ganiatáu mwy o amser i weld cleifion gyda phroblemau cyffuriau fod yn fuddiol ac y dylid rhoi mwy o sylw i'r sylweddau sydd ar gael yn lle cyffuriau ynghyd â chynghori ar sylweddau yn lle cyffuriau.
- Nodwyd yr effaith y mae camddefnyddio sylweddau yn ei chael ar gymunedau a theuluoedd ac awgrymwyd y dylai'r Gweinidog, os nad yw wedi gwneud hyn yn barod, ystyried gwahodd crwner i fod yn aelod o'r gweithgor.

- Nodwyd y perygl o gael HIV/AIDS drwy ddefnyddio nodwyddau brwnt ac roedd teimlad nad oedd yr agwedd hon ar gamddefnyddio yn cael sylw rhagor.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried gwaith gwych yr asiantaethau yn y Gogledd, sy'n cynnwys yr ardal gyfan, wrth iddi feddwl am sefydlu Timau Cyffuriau ac Alcohol ar ffiniau'r siroedd.

6.4 Dyma oedd ymateb y Gweinidog:

- Mae gwaith mapio ar y gweill i weld beth sydd ar gael ac yn ble ac wrth i'r canlyniadau gael eu hystyried byddai penderfyniad priodol ynghylch y gyllideb yn cael ei gymryd. Ychwanegodd ei bod hefyd yn ymwybodol bod angen darparu llety a gwaith i gyn-droseddwyr wrth iddynt adael y system gosb a byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei phenderfyniad. Dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai ganddi well syniad o nifer y gwelyau sydd eu hangen erbyn y Nadolig.
- Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai unrhyw arian yn cael ei roi i feysydd eraill.
- Dywedodd ei bod yn ystyried meddygon teulu arbennig nad ydynt ond yn trin pobl sy'n gaeth i gyffuriau. Roedd hefyd yn ystyried sefydlu fferyllfeydd a fyddai'n gallu dosbarthu sylweddau yn lle cyffuriau.
- Roedd y Gweinidog yn hapus i ystyried gwahodd crwner i fod yn rhan o'r gweithgor.
- Cytunodd fod y bygythiad o HIV/AIDS wedi diflannu oddi ar yr agenda ond mi fyddai'n mynd i'r afael â'r pryder.
- Dywedodd ei bod yn ymwybodol o'r gwaith gwych sydd wedi'i wneud yn y Gogledd ond yr ymateb cyffredinol oedd sefydlu grwpiau ar ffiniau'r siroedd.
- Dywedodd y byddai hi'n anfon rhestr o dimau cyffuriau ac alcohol at y clerc er mwyn ystyried eu gwahodd i roi cyflwyniadau ar eu gwaith mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ystyried ychwanegu Crwner at y Gweithgor ar Weithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau.
- Y Gweinidog i ofyn i swyddogion ystyried y posibilrwydd o neilltuo arian er mwyn helpu meddygon teulu i gynghori ar gamddefnyddio sylweddau.
- Y Gweinidog i roi i'r Ysgrifenyddiaeth restr o fudiadau y gellir eu gwahodd i'r Pwyllgor i roi cyflwyniadau ar y ffordd y maen nhw'n mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

**<u>11.50am hyd 12.30pm</u>**

**Eitem 7: Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**LGH-16-02(p.4)**

7.1 Croesawodd y Cadeirydd Sandy Blair, Cyfarwyddwr CLlLC, Steve Thomas, Pennaeth Materion Corfforaethol a Robert Rees, Pennaeth Tai yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i'r Pwyllgor. Dywedwyd wrth CLlLC y gallai gyflwyno unrhyw eitem gerbron y Pwyllgor ac roedd wedi dewis Tai.

2. Diolchodd Sandy Blair i'r Cadeirydd am y gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor ac ymddiheurodd ar ran Syr Harry Jones a'r Cynghorydd Ronnie Jones.

2. Tynnodd Sandy Blair sylw aelodau at faniffesto CLlLC "Putting our house in order", a oedd yn ceisio tanlinellu pa mor bwysig yw buddsoddi mwy mewn tai safonol, fforddiadwy. Roedd y cyflwyniad yn cyfeirio at y papur a thynnwyd sylw yn arbennig at y meysydd a ganlyn.

- Mae'r Gymdeithas yn croesawu'n fawr y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud i ddatblygu gweledigaeth ac amcanion clir drwy gyhoeddi ei Strategaeth Dai Genedlaethol - Cartrefi Gwell. Roedd y Gymdeithas dal yn pryderu am y bwlch sy'n parhau ac yn tyfu rhwng y weledigaeth a'r flaenoriaeth y mae'r Cynulliad yn ei rhoi i fuddsoddi mewn tai.
- Roedd yn teimlo bod tai, i bob golwg, yn isel ar restr blaenoriaethau cyllideb y Cynulliad a bod diffyg buddsoddiad craidd.
- Roedd y gymdeithas yn teimlo bod cyflwr tai yng Nghymru ymhlith y gwaethaf yn y DU a bod tai gwael yn tanseilio llawer o amcanion allweddol y Cynulliad; cyrhaeddiad addysgol, iechyd a lles, cymunedau cynaliadwy a datblygu economaidd.
- Mae'n anodd gweld sut y gellir cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) erbyn 2010 nac ychwaith y targedau ar anaddasrwydd erbyn 2003 a 2012 yn Gwell Cymru heb lawer mwy o fuddsoddiad cyhoeddus.
- Roedd yn croesawu'r ffaith bod y Cynulliad wedi cydnabod y cysylltiadau rhwng gwella tai, creu swyddi a phrentisiaethau i ddatblygu sgiliau'r gweithlu.
- O ran tai awdurdodau lleol, roedd yn teimlo y dylai tenantiaid ac awdurdodau lleol gael dewis arall heblaw am drosglwyddo stoc a gofynnodd beth fyddai'n digwydd pan fyddai tenantiaid yn pleidleisio yn erbyn trosglwyddo stoc.
- Roedd CLlLC yn croesawu'r drefn fenthyca ofalus ond nid oedd yn teimlo y byddai hyn yn arwain at welliannau sylweddol o ran gallu pobl i gael benthyciad i ddibenion tai.
- Roedd yn teimlo bod fforddiadwyedd yn fater i bob sector ac yn her fawr i'r Cynulliad.
- Roedd yn teimlo bod gan gyllid y sector preifat rôl i'w chwarae wrth adnewyddu'r sector preifat ond nododd nad yw llawer o berchen-breswylwyr yn ddigon teilwng o gredyd i gael benthyciad. Dywedwyd nad yw'r arian sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwaith trwsio

ac adnewyddu yn ddigon o gofio pa mor gyflym y mae tai yn mynd â'u pen iddynt. Ychwanegwyd bod yr arolwg cyflwr tai newydd yn debygol o ddangos bod cyflwr tai yn dirywio'n gynt. Mae'r awdurdodau lleol wedi croesawu'r trefniadau dewisol newydd ar gyfer rhoi arian grant sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd.
- Roedd yn teimlo bod problemau difrifol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy mewn perthynas â Thai Amlfeddiant a byddai hyn yn her i'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.
- Croesawodd y Gymdeithas yr arian ychwanegol ar gyfer y digartref a phwysleisiodd fod yn rhaid i lywodraeth, ar bob lefel, gael gwared ar hyn.

2. Dyma oedd ymateb y Gweinidog:

- Roedd yn teimlo bod yr adroddiad yn gais am arian ychwanegol ac nad oedd yn cydnabod y rhaglenni sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y tair blynedd diweddaf a'r effaith sylweddol y mae'r rhain yn ei chael ar unigolion agored i niwed. Mae tai yn cael arian sylweddol o floc Cymru ac roedd yn bwysig cydnabod bod y gyllideb dai wedi gwrthdroi'r tueddiad i ddirwyio a oedd yn amlwg mewn blynyddoedd blaenorol.
- Roedd yn falch bod y Gymdeithas wedi cydnabod bod digartrefedd yn flaenoriaeth, ond yn siomedig nad oedd yr adroddiad yn dangos y polisïau a'r cyllid i fynd i'r afael â hyn.
- Roedd dal yn aros i gael gwerthuso'r ymarfer WHQS, gan nad oedd 8 awdurdod lleol wedi ymateb o hyd.
- Cyfeiriodd yn ôl at y sylwadau cynharach ynghylch gofyn am bapur gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar sut oedd y cyngor wedi rheoli'r bleidlais ar drosglwyddo stoc. Ychwanegodd nad oedd y papur yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y rheolau PSBR yn fater a oedd wedi'i ddatganoli na bod sawl ymdrech wedi bod i ofyn i Lywodraeth y DU am newidiadau. Er hynny, gallai awdurdodau lleol fod wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i'r meysydd hynny a oedd yn elwa fwyaf ar adnoddau cyfalaf.
- Nid â lefelau rhent yn unig y mae a wnelo fforddiadwyedd ond mae hefyd angen cymryd i ystyriaeth y costau eraill sy'n gysylltiedig â thai megis gwres.
- Nid oherwydd arian y mae cymaint o grantiau cyfleusterau i'r anabl heb gael eu cymeradwyo ond yn hytrach oherwydd yr oedi wrth asesu a hynny, yn aml, achos bod prinder therapyddion galwedigaethol.
- .
- Mae wedi cyflwyno nifer o sylwadau i'r Trysorlys mewn perthynas â llacio'r rheolau PSBR ond yn anffodus nid yw wedi bod yn llwyddiannus.
- Roedd yn gobeithio gweld papur diwygiedig gan CLlLC a oedd yn rhoi ystyriaeth i sylwadau'r Pwyllgor.

2. Cafwyd ymateb cymysg gan Aelodau i'r adroddiad, a dyma eu sylwadau:

- Roeddent yn teimlo bod y papur yn darparu adolygiad cynhwysfawr ac yn pwysleisio pam fod buddsoddi mewn tai yn hanfodol i bolisïau adfywio'r Cynulliad.
- Roedd rhai Aelodau yn teimlo nad oedd tai yn cael digon o flaenoriaeth yn y gyllideb a

bod gormod o ddibyniaeth ar lywodraeth leol i gyflawni mewn ardaloedd lleol.

- Byddent yn croesawu cymorth cydlynol ym maes tai yn enwedig mewn perthynas â thai gwledig.
- Roeddent yn teimlo nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i rôl strategol awdurdodau lleol wrth ddelio â phroblemau tai a thargedu arian lle bo'i angen fel blaenoriaeth.
- Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi arwain y ffordd gyda'i bleidlais trosglwyddo stoc llwyddiannus.
- O ran diagartrefedd, roeddent yn teimlo ei bod yn eironig nad oedd y newid mewn deddfwriaeth wedi deillio o lobïo gan awdurdodau lleol ond ei fod yn flaenoriaeth fawr gan y Cynulliad a bod cynnydd mawr wedi bod yn y cyllid i fynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol asesu beth yw eu gofynion o ran mynd i'r afael â digartrefedd yn eu hardaloedd.
- O ran Tai Amlfeddiant, roeddent yn digwyl cyhoeddiad yn Araith y Frenhines heddiw (13 Tachwedd) o ran deddfwriaeth i drwyddedu Tai Amlfeddiant.
- Mae'r Cynulliad wedi chwarae rôl amlwg yn y gwaith o sicrhau bod Llywodraeth y DU yn rhoi sylw i faterion allweddol sy'n ymwneud â thai.
- Mae pobl am gael atebion i broblemau ac nid ydynt am i bobl ddweud wrthynt pa gamau na ellir eu cymryd.
- O ran fforddiadwyedd, efallai y gallai adrannau cynllunio ystyried rhyddhau tir y tu allan i'r prif glymdrefi lle roedd prisiau tai yn is, yn gyffredinol.
- Gofynnwyd pa feini prawf addasrwydd a ddefnyddiwyd yn arolwg y Gymdeithas.

2. Wrth ymateb, dywedodd Sandy Blair:

- Ni fwriadwyd i'r papur fod yn ansensitif ac roedd wedi cydnabod y lles yr oedd y Cynulliad wedi'i wneud mewn sawl maes arwyddocaol o fewn y portffolio tai.
- Roedd yn cydnabod y gwahanol alwadau ar y gyllideb ac ar y Gweinidog Cyllid ac roedd ganddynt bob cydymdeimlad.
- Roedd yn teimlo y gallai mwy o fuddsoddi ym maes tai helpu i fynd i'r afael â materion eraill sy'n gysylltiedig â chyflwr gwael tai.
- Roedd mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn. Roedd angen ariannu ffyrdd o rannu arferion gorau.
- Mae angen newidiadau cymhleth wrth drin materion sensitif ee cefnogi pobl. Roedd yn gwerthfawrogi'r arian ychwanegol ar gyfer y grwp hwn sy'n agored i niwed.
- Dylai partneriaethau ddarparu gwell buddsoddiad yn y dyfodol.
- Cytunodd i gysylltu ag awdurdodau lleol nad oedd wedi ymateb i'r arolwg WHQS.
- Byddai'n aros nes i'r arolwg o gyflwr tai gael ei werthuso cyn penderfynu pa sialensiau oedd yn eu hwynebu.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Tachwedd 2002